Yna dywedodd Iesu wrtho, “Dos ymaith, Satan;” **(Mathew 4:10)**

Dyma eiriau sy’n crynhoi gwrthsafiad Iesu yn erbyn y diafol. Mae hanes y temtiad yn dangos i ni nerth ein Pencampwr a ffynhonnell ein buddugoliaeth ninnau dros yr Un drwg hefyd.

Archoffeiriad tosturiol

Mae’r ffaith fod Iesu wedi ei demtio fel hyn yn eithriadol bwysig i ni. Sut allai fod yn gynrychiolydd iawn i ni heb wynebu ein profiadau? Dywed yr Epistol at yr Hebreaid fod Iesu’n cydymdeimlo â ni am ei fod **“wedi ei demtio ym mhob peth, yn yr un modd â ni, ac eto heb bechod.”** (Heb.4.15) Beth bynnag y temtasiynau ddaw i’n rhan, fe gawn gydymdeimlad gan ein Harglwydd mawr. Bydd yn barod i’n cynorthwyo ac i’n nerthu i wrthwynebu Satan fel y gwnaeth ef ei hun.

Eto i gyd, mae un gwahaniaeth sylfaenol. Ni allai Iesu bechu. Taflodd Satan bopeth ato, ond ni ildiodd. Pan mae’r diafol yn ein temtio ni mae ganddo fachyn y tu mewn i ni gyda’n trachwant a’n llygredd. Doedd dim trachwant na llygredd nac unrhyw wendid mewnol yn Iesu.

Cerrig yn fara

Roedd y temtasiwn o fara ar ôl ympryd o ddeugain niwrnod yn un real iawn. Ensyniad y diafol oedd y byddai hyn yn gyfle gwych i Iesu ddangos ei dduwdod a bodloni chwant corfforol. Roedd ganddo nerth a gallu, ond nid i’w ddefnyddio er ei fwyn ei hunan. Roedd hyn yn amser wedi ei neilltuo i ympryd. Roedd yn amser i Iesu geisio Duw cyn mynd ymlaen â’i weinidogaeth gyhoeddus.

Yn y weinidogaeth honno, byddai’n dangos ei fod yn Fab Duw trwy lefaru Gair Duw ag awdurdod a chyflawni arwyddion gwyrthiol er lles eraill.

Teirgwaith mae Iesu’n gwrthsefyll temtasiwn gyda Gair Duw. Mae’n dangos i ni pa mor werthfawr a phwysig oedd yr Ysgrythur iddo. Mae’n dyfynnu Deuteronomium 8.3 y tro cyntaf. Daeth y geiriau’n wreiddiol i’r Iddewon yn yr anialwch. Rhoes Duw y manna iddynt i brofi y gallai eu cynnal heb fwyd yr Aifft. Credai Iesu y byddai’r Tad yn ei gynnal nawr hefyd tan ddiwedd ei ympryd. Roedd ufuddhau i Dduw yn well na bodloni’r hunan dros dro.

Temtio Duw

Yna mae Satan yn cymryd Iesu i binacl uchaf y Deml yn Jerwsalem. Mae hyn yn neges bwysig i ni. Dyw’r ffaith ein bod mewn capel neu eglwys, yn darllen ein Beibl neu’n gweddïo, ddim yn golygu ein bod yn saff rhag y temtiwr

twyllodrus. Dydy Satan ddim yn parchu sancteiddrwydd y Deml na'r moddion gras chwaith. Unwaith eto, mae'n bwrw amheuaeth ar safle Iesu Grist fel Mab Duw. Mae'n temtio Iesu i ryfygu er mwyn profi ffyddlondeb Duw i'w addewidion. Mae yntau'n dyfynnu'r Ysgrythur nawr, sef Salm 91.11-12.

Er ei fod yn gwybod yr adnodau nid yw'n eu hesbonio na'u defnyddio'n gywir. Yn y cyd-destun, roedd yr Arglwydd yn addo amddiffyn ei saint wrth iddynt aros yng nghysgod yr Hollalluog am iddynt ei wneud yn amddiffynfa iddynt. Hefyd, byddai'n eu gwarchod wrth iddynt ***orfod*** wynebu anawsterau a pheryglon. Doedd hyn ddim yn 'carte blanche' i neidio o uchder mawr, felly.

Mae Iesu'n dyfynnu Deuteronomium 6.16. Dyma gyfeiriad at yr amser pan demtiodd yr Israeliaid yr Arglwydd trwy ei gyhuddo o'u camdrin wrth eu harwain i'r anialwch llychlyd, sych.

Mae Iesu'n esbonio'r Ysgrythur gyda'r Ysgrythur. Allai rhyfygu Duw ar sail Salm 91 ddim fod yn iawn gan fod Gair Duw yn gwahardd rhyfyg yn y lle cyntaf.

Teyrnasoedd byd

Mae'n debyg mai gweledigaeth o Jerwsalem ac o deyrnasoedd byd gafodd Iesu yn y ddau demtiad olaf, er na allwn fod yn hollol sicr. Serch hynny, roedd y temtasiwn yn real iawn.

Gwelodd Iesu holl deyrnasoedd byd yn eu gogoniant. Cafodd gipolwg ar balasau'r ddaear a'i chanolfannau grym. Mae Datguddiad 18.12 yn rhestru cyfoeth anfesuradwy y byd, yn ddeunyddiau drudfawr, perlysiau, anifeiliaid a phobl.

Ai Satan biau hyn, beth bynnag? Dyna'r argraff y mae ef am ei roi. Er ei fod yn cael ei alw'n 'Dywysog y byd hwn' ac yn 'dywysog llywodraeth yr awyr,' mae hynny'n dangos ei ddylanwad drwg a phwerus dros y rhai sydd o dan ei lywodraeth yn unig. Does dim tystiolaeth y gall wneud unrhyw beth heb ganiatâd dwyfol.

Y temtasiwn i Iesu oedd derbyn addewid y Tad heb oddef y groes: **"gofyn, a rhoddaf iti'r cenhedloedd yn etifeddiaeth, ac eithafoedd daear yn eiddo iti;"** (Salm 2.8). Serch hynny, mae'n ateb Satan gyda Deuteronomium 6.3. Doedd angel syrthiedig ddim yn werth ei addoli, ac roedd ei gynnig yn haeddu dirmyg ac yntau'n haeddu ei ddanfon ymaith yn syth.

Diolch am hanes prawf Iesu ac am ei fuddugoliaeth er ein mwyn.